GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION DRAFFT CYFARFOD RHIF DEUNAW AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 4YDD CHWEFROR 2010

LLEOLIAD: ESIS, TREFFOREST

Yn bresennol:
Aelodau:

Mal Davies (Cadeirydd)	Ian Guy
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Angela Jardine
Phil Bassett	Gareth Jones
Frank Bonello	Hélène Mansfield
Tim Cox	Jane Morris
Beth Davies	Suzanne Nantcurvis
Elwyn Davies	Sue O'Halloran
Susan Davies	Hugh Pattrick
Roberto De Benedictis	Jane Setchfield
Sheila Drayton	Cleo Sollars
Mike Edwards	Anna Spokes

Ymddiheuriadau:

Gareth Matthewson	Sarah Stockford

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Karen Evans	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Jo Read	Ysgrifenyddes y Cyngor

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod rhif deunaw ar hugain y Cyngor.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gareth Matthewson a Sarah Stockford.

1.3 Yna estynnwyd croeso i Gail Mortimer (Cadeirydd, Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr) a Glenise Borthwick (Pennaeth Cyfathrebu, Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) a oedd yn mynychu'r cyfarfod fel arsylwyr.

1.4 Aeth y Cadeirydd ymlaen i atgoffa'r aelodau y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2.2 Gwahoddwyd yr aelodau wedyn i symud ymlaen i eitem 12 ar yr agenda: “Categorïau Cofrestru / trwydded i ymarfer” yng ngoleuni'r drafodaeth a gafwyd yn y sesiwn anffurfiol gynharach. Roedd yr aelodau'n cytuno.

3. Categorïau Cofrestru / trwydded i ymarfer (CyngACC 03/10)

3.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod y Cyngor wedi gwneud nifer o benderfyniadau 'mewn egwyddor' yn ei gyfarfod diwethaf.

3.2 Roedd y papur hwn yn dilyn cyhoeddi Papur Gwyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd yn Lloegr o'r enw *Your Child, Your Schools, Our Future: Building a 21st Century Schools System* ym mis Mehefin 2009 a'r mesur yn dilyn hynny. Roedd yr aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi hysbysu Adran DCSF nad oedd am i “drwydded i ymarfer” fod yn weithredol yng Nghymru.

3.3 Roedd y Cyngor wedi gofyn i'r Pwyllgorau Polisi a Chofrestru ddatblygu syniadau pellach ynghylch categorïau cofrestru. Nawr gwahoddwyd yr aelodau i ystyried nifer o gynigion ac, os yn briodol, mabwysiadu'r rhain fel safbwynt ffurfiol y Cyngor. Y cynigion oedd: y dylid dyfarnu cofrestriad llawn yn dilyn sefydlu, y dylid rhoi cofrestriad amodol i athrawon nad oeddent wedi bodloni'r safon sefydlu eto; y dylid rhoi cofrestriad amodol i unigolion a oedd yn gallu ymgymryd â gwaith penodedig athro heb oruchwyliaeth, a gofyn eu bod yn ddarostyngedig i gyfrifoldebau disgyblu'r Cyngor ynghyd â thalu ffi gofrestru; y dylai'r Cyngor bennu'n union pa unigolion o fewn y gweithlu ysgolion ehangach y dylid eu rheoleiddio ac yna cynnal gwaith pellach ar safonau, hyfforddiant a chymwysterau; y dylai'r Cyngor yna sefydlu safbwynt ynghylch pa sefydliad fyddai yn y sefyllfa orau i reoleiddio'r grŵp hwn.

3.4 Gwahoddwyd yr aelodau hefyd i drafod cyflwyno gofyniad posibl ar gyfer athrawon na fuont wrth eu gwaith am gyfnod estynedig ac a oedd yn dymuno ailymuno â'r proffesiwn, a darparu cyfeiriad clir i'w ddatblygu ymhellach.

<u>Cofrestru amodol:</u>

3.5 Gofynnodd un aelod am eglurhad ynghylch gallu'r rheiny y gellid eu “cofrestru'n amodol” i symud i wledydd eraill yn y DU i weithio fel athrawon. Rhoddwyd sicrwydd na fyddai'r grŵp yn cael ei effeithio'n andwyol am fod CyngAC yr Alban eisoes yn rhoi cofrestriad amodol i'r athrawon hynny a oedd yn mynd drwy'r cyfnod sefydlu ac roedd CyngAC Lloegr yn anelu at yr un sefyllfa.

3.6 Holodd aelod arall a fyddai ffi wahanol yn cael ei chodi am “gofrestriad amodol”. Dywedodd y Prif Weithredwr y dylai'r un ffi fod yn berthnasol fel y sefyllfa bresennol.

3.7 Gan leisio'i bryderon am anghysondebau ar draws darpariaeth hyfforddiant sefydlu i ANG, gofynnodd aelod arall i'r Cyngor bwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau ansawdd y safon sefydlu, yn arbennig yng ngoleuni'r pwysigrwydd a fyddai'n gysylltiedig â chyflawni'r safon.

3.8 Roedd yr aelodau'n cytuno bod angen mwy o fanylion i sicrhau bod diffiniad “Cofrestru Amodol” yn glir.

3.9 Roedd yr aelodau'n cytuno y dylid dyfarnu cofrestriad llawn ar ôl sefydlu ac y dylid rhoi cofrestriad amodol i athrawon nad oeddent wedi bodloni'r safon sefydlu eto.

<u>Hyfforddwyr ac athrawon a hyfforddwyd dramor:</u>

3.10 Cafwyd trafodaeth ynghylch yr opsiwn i'r Cyngor gyflwyno gwahanol gategorïau o gofrestru amodol, gydag un is-set yn cynnwys hyfforddwyr ac athrawon a hyfforddwyd dramor o bosibl.

3.11 Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch am faint o amser y gallai athrawon a hyfforddwyd dramor barhau i fod wedi'u “cofrestru’n amodol”. Dywedodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) y byddai hyn am fwyafswm o ddwy flynedd am fod hyn yn cyd-fynd â'r cyfnod y caiff y grŵp hwn addysgu cyn bod yn rhaid iddynt ennill SAC. Fodd bynnag, gallai'r unigolion hynny a oedd yn "hyfforddwyr" barhau i fod wedi'u "cofrestru’n amodol" am gyfnod diderfyn.

3.12 Cymerodd y Prif Weithredwr y cyfle hwn i esbonio y byddai cofrestru hyfforddwyr ac athrawon a hyfforddwyd dramor yn y modd hwn yn cau cloerdwll presennol lle nad oedd y grwpiau unigolion hyn wedi'u cofrestru ar hyn o bryd gyda chorff proffesiynol ac nad oeddent felly'n ddarostyngedig i unrhyw god disgyblu. Croesawodd un aelod y cam hwn gan nodi y byddai angen newid deddfwriaeth i roi trefniadau o'r fath ar waith.

3.13 Ni allai'r aelodau benderfynu ai'r term "cofrestru amodol" oedd y term mwyaf priodol ar gyfer hyfforddwyr ac athrawon a hyfforddwyd dramor a chytunwyd bod angen gwaith pellach i bennu'r term mwyaf priodol. Gellid defnyddio is-gategorïau fel “gyda SAC” neu “heb SAC". Awgrymodd un aelod hefyd y gellid diffinio "cofrestru amodol" fel yr hawl i addysgu.

3.14 Yn ystod y drafodaeth, lleisiodd un aelod ei barn y byddai angen trafodaeth ynghylch cofrestru athrawon yn y sector AB. Atgoffwyd yr aelodau bod y Cyngor eisoes wedi datblygu papur safbwynt manwl ar y mater hwn.

3.15 Cytunodd yr aelodau i fabwysiadu'r safbwynt y dylid cofrestru’n amodol y rheiny a oedd yn gallu ymgymryd â gwaith penodedig athro, heb oruchwyliaeth, eu gwneud yn ddarostyngedig i gyfrifoldebau disgyblu'r Cyngor a gofyn iddynt dalu ffi gofrestru.

<u>Rheoleiddio'r gweithlu ehangach:</u>

3.16 Tynnodd un aelod sylw at baragraff 15 ac awgrymu y dylai'r Cyngor wneud argymhellion penodol ynghylch manylion rheoleiddio'r gweithlu ysgolion ehangach, yn arbennig pa grwpiau o unigolion y dylid eu rheoleiddio. Cynigiodd y Prif Weithredwr y gallai'r datganiad ym mharagraff 14 nodi'r sail ar gyfer safbwynt y Cyngor a chefnogwyd hyn.

3.17 Awgrymodd aelod arall fod angen trafodaeth fanwl ar y mater hwn ac mai'r ffordd orau o bosibl o wneud hyn oedd i aelodau weithio mewn grwpiau trafod llai yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Roedd yr aelodau'n cytuno a byddai'r swyddogion yn gwneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Ebrill 2010.

<u>Gofyniad ailymuno:</u>

3.18 Yna trafododd yr aelodau'r cynnig i gyflwyno gofyniad ailymuno ar gyfer athrawon na fuont wrth eu gwaith am gyfnod estynedig, dyweder 5-7 mlynedd, drwy ymestyn y meini prawf addasrwydd. Byddai hyn o fewn grymoedd presennol y Cyngor ac ni fyddai angen deddfwriaeth newydd.

3.19 Rhoddodd un aelod ei farn fod gan athrawon a oedd wrth eu gwaith ar hyn o bryd yr hawl i gyrchu datblygiad proffesiynol ond y gallai'r rheiny oedd yn ceisio dychwelyd i'r proffesiwn gael trafferthion yn cyrchu datblygiad o'r fath.

3.20 Holodd aelod arall a fyddai'r cynigion yn berthnasol i unigolion na fuont wedi'u cofrestru ers 5-7 mlynedd neu'r rheiny a oedd wedi parhau â'u cofrestriadau ond na fuont yn addysgu. Dywedodd Hayden Llewellyn fod angen trafod y manylion hyn o hyd a'u rhoi yn eu ffurf derfynol i'r Cyngor eu hystyried.

3.21 Cododd aelod y mater ynghylch a ddylai unigolion nad oeddent mewn swydd addysgu ar hyn o bryd, dalu am eu datblygiad eu hunain. Nododd mai dyma oedd yn digwydd mewn rhai proffesiynau. Dywedodd aelod arall fod SAU, yn ei brofiad ef, wedi cynnal

cyrsiau 'dychwelyd i addysgu' yn y gorffennol a chadarnhaodd fod y rhai a fynychodd wedi talu eu ffi eu hunain.

3.22 Prif bwyntiau'r drafodaeth i gloi oedd: y dylid cael hyd i'r niferoedd dan sylw yn gyntaf drwy gysylltu ag SAU gan gynnwys cael dadansoddiad o gyfran y dynion o'u cymharu â menywod sy'n dymuno dychwelyd i addysgu; y byddai angen i'r Cyngor bennu a fyddai disgwyl i athrawon 'feddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf a gallu ei chymhwyso' cyn dychwelyd i'r proffesiwn neu o fewn cyfnod penodol ar ôl dychwelyd; a fyddai'n briodol pennu cyfnod o “gofrestru’n amodol" hyd nes i unigolyn feddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf a gallu ei chymhwyso; ac a ddylid sicrhau ansawdd cyrsiau gloywi hyfforddiant.

3.23 Cytunodd yr aelodau, am y tro, y dylai'r Cyngor fodloni ei hun gyda datganiad safbwynt yn cadarnhau bod y Cyngor yn awyddus i sicrhau bod unrhyw un ar y gofrestr yn meddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau priodol i addysgu fel y gellid cynnal hyder y cyhoedd. Dylai'r Cyngor nodi y byddai'n gwneud gwaith pellach ar y manylion.

3.24 Yna cytunodd yr aelodau y dylid trosglwyddo'r mater hwn i'r Pwyllgor Cofrestru i'w ddatblygu ymhellach.

4. Gohebiaeth y Cadeirydd

4.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw at ei lythyr at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau dyddiedig 11eg Tachwedd 2009 mewn perthynas â therfynu'r rhaglen DPP â ffocws unigol a'r ymateb yn dilyn hynny dyddiedig 24ain Tachwedd 2009.

4.2 Yna tynnwyd sylw'r aelodau at lythyr y Cadeirydd at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau dyddiedig 18fed Tachwedd 2009 a nododd yr achos busnes dros brif-ffrydio'r rhaglen Athro Siartredig. Ni dderbyniwyd ymateb hyd yma.

4.3 Atgoffwyd yr aelodau fod Leighton Andrews wedi cymryd swydd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Lleisiodd y Cadeirydd ei gefnogaeth dros yr adolygiad o gyllid addysg a gyhoeddwyd gan Mr Andrews ar 21ain Ionawr 2010.

4.4 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau i'w hegluro.

5. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 20fed Hydref 2009

5.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

Materion yn codi:

5.2 Cofnod 4.4: Hyfforddiant i Aelodau: Hysbyswyd yr aelodau y byddai David Nicholl (CIPFA) yn darparu sesiwn hyfforddiant ar Lywodraethu Corfforaethol ar gyfer aelodau a oedd newydd eu penodi ar 19eg Mai 2010. Byddai gwahoddiadau'n cael eu hestyn i'r aelodau hynny nad oeddent wedi gallu mynychu sesiwn flaenorol gan Mr Nicholl yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror 2009.

5.3 Cofnod 11:9: Rheolau Cofrestru Drafft: Tynnodd y Cadeirydd sylw at ymgynghoriad y Cyngor a oedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y *Rheolau Cofrestru Drafft* a fyddai'n dod i ben ar 26ain Chwefror 2010.

5.5 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

6. Derbyn hysbysiad am unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas â’r eitemau a nodwyd ar yr Agenda ‘Er Gwybodaeth (21-24)

6.1 Nododd y Dirprwy Gadeirydd ei bwriad i godi eitem 23 ar yr agenda: “Adroddiadau gan gynrychiolwyr y Cyngor ar grwpiau allanol” (CyngACC 14/10).

6.2 Ni hysbyswyd am unrhyw eitemau eraill.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd 1af Rhagfyr 2009

7.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr a chynghorodd yr aelodau y byddai'r rhan fwyaf o'r materion yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod.

Materion yn codi:

7.2 Cofnod 4.1: Amserlen ar gyfer ethol Cadeirydd & Dirprwy Gadeirydd 2010: Atgoffwyd yr aelodau fod yr amserlen wedi'i dosbarthu ar 8fed Rhagfyr 2009 a thynnwyd sylw at y cam cyntaf, sef y cais am enwebiadau i swydd y Cadeirydd ar 4ydd Mawrth 2010.

7.3 Cofnod 5: Argymhellion yn sgil ymarfer hunanasesu'r Cyngor a'r Pwyllgorau 2009: Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at yr adroddiad a gynhyrchwyd yn dilyn ymarfer hunanasesu 2009 ac a drafodwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu a'r Pwyllgor Gweithredol. Darparwyd yr adroddiad er gwybodaeth yn eitem 21 ar yr agenda.

7.4 Cofnod 7: Adolygiad Ariannol ar gyfer y chwe mis yn dod i ben 30ain Medi 2009: Gwahoddwyd yr aelodau i nodi bod y safbwynt hanner blwyddyn a ystyriwyd gan y Pwyllgor Gweithredol yn cyd-fynd fwy neu lai â'r gyllideb ar gyfer y cyfnod hwnnw.

7.5 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

7.6 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a gynhaliwyd 1af Rhagfyr 2009

8.1 Cyflwynodd y cofnodion hyn gan Gadeirydd y Pwyllgor, Hugh Pattrick a thynnodd sylw'r aelodau at y prif bwyntiau. Hysbyswyd yr aelodau y byddai'r holl faterion yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod.

Materion yn codi:

8.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

8.3 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

9. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd 4ydd Rhagfyr 2009

9.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr a chynghorodd yr aelodau y byddai'r rhan fwyaf o faterion yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod.

Materion yn codi:

9.2 Cofnod 2.3: Cofnodion drafft y cyfarfod ar 14eg Medi 2009: Hysbyswyd yr aelodau y bu gohebu dwy ffordd rhwng y Prif Weithredwr a Dr Dennis Gunning, Cyfarwyddwr y Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes yn Llywodraeth y Cynulliad, ynghylch mater rheoleiddio proffesiynol yn y sector AB. Nododd ymateb Dr Gunning y byddai'r sector AB yn cymryd rhan lawn yn adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o DPP.

9.3 Cofnod 3. Categorïau Cofrestru: Tynnwyd sylw'r aelodau at y drafodaeth yn y Pwyllgor Polisi ar Gategorïau Cofrestru a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod. Amlygodd y Prif Weithredwr y drafodaeth ar ofynion ailymuno yn arbennig.

9.4 Cofnod 5: Cyhoeddi "*Professionalism and Pedagogy"* ar y cyd â TLRP a ChyngAC y DU. Adroddodd y Prif Weithredwr fod y Pwyllgor Polisi wedi argymell na ddylai CyngACC gymryd unrhyw gamau pellach hyd nes i'r TLRP ddatblygu'r drafft ymhellach.

9.5 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

9.6 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

10. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu a gynhaliwyd 4ydd Rhagfyr 2009

10.1 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor, Sheila Drayton, y cofnodion hyn ac amlygodd y prif bwyntiau.

Materion yn codi:

10.2 Cofnod 5.3: Goblygiadau archwilio yn sgil tynnu'r rhaglen gyllido DPP yn ôl: Tynnwyd sylw'r aelodau at bryder y Pwyllgor am benderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gau'r Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol ar 31ain Mawrth 2010 a'r effaith ar enw da'r Cyngor.

10.3 Cofnod 9.4 – 9.6: Adolygu'r Gofrestr Risg: Roedd Archwilwyr Mewnol y Cyngor wedi awgrymu y dylai'r risgiau a wynebwyd o ganlyniad i gau'r rhaglen DPP gael eu trin a'u trafod yn annibynnol ar brif Gofrestr Risg y Cyngor.

10.4 Cofnod 11.3: Adolygu'r Polisi Rhoddion a Lletygarwch: Adroddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi argymell mai'r unig ffordd ddilys o dderbyn rhoddion a lletygarwch oedd pan oeddent yn gysylltiedig â phrif fusnes y Cyngor fel corff proffesiynol ar gyfer athrawon yng Nghymru. Roedd y Polisi'n cael ei addasu yn unol â hynny.

10.5 Cofnod 12: Caffael gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer 2010-11 a thu hwnt: Hysbyswyd yr aelodau fod y Cyngor ar fin ail-osod tendr y contract ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol.

10.6 Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad ac nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

10.7 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

11. Rheolau Sefydlog Drafft Diwygiedig. (CyngACC 01/10)

11.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn, a oedd yn gwahodd yr aelodau i ystyried newidiadau pellach i'r Rheolau Sefydlog a'u mabwysiadu os ystyriwyd bod hynny'n briodol.

11.2 Tynnwyd sylw'r aelodau at y newidiadau arfaethedig a oedd yn ymwneud â'r canlynol: absenoldeb parhaus aelod (Rheol Sefydlog 5), lle cynigiwyd y dylai'r aelod gael cyfle i gael gwrandawiad mewn sesiwn breifat, os bydd yn parhau i fod yn absennol o gyfarfodydd y Cyngor; eglurhad y gallai'r Cadeirydd fwrw ymlaen â busnes mewn achosion o frys lle nad oedd gan y Cyngor neu Bwyllgor gworwm (Rheol Sefydlog 18); a manylion ynghylch trefniadau ethol (Rheol Sefydlog 20) lle cyflwynwyd is-adran newydd i ddisgrifio sefyllfaoedd lle gallai fod angen pleidleisio, a'r ffordd o bleidleisio a chofnodi pleidlais.

11.3 Trafododd yr aelodau nifer o faterion. O'r rhain, y prif bwyntiau oedd: na fyddai athrawon yn cael dewis i wrandawiad disgyblu gael ei gynnal yn breifat; ac, a oedd angen i'r cyfarfod nesaf gadarnhau penderfyniad a wnaed gan y Cadeirydd mewn sefyllfa lle nad oedd cworwm. Mynegodd un aelod ei barn y byddai'r aelodau a oedd yn bresennol yn gallu helpu i lywio proses y Cadeirydd o wneud penderfyniad mewn sefyllfa lle nad oedd cworwm.

11.4 Gan gymryd pob un o'r diwygiadau arfaethedig yn eu tro, gwahoddwyd yr aelodau i fwrw pleidlais ar bob cynnig. Cafwyd un bleidlais yn erbyn Rheol Sefydlog 5, gyda'r holl newidiadau arfaethedig eraill yn cael eu cefnogi'n unfrydol.

11.5 Cytunodd yr aelodau felly i fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog, a'u gweithredu o'r cyfarfod nesaf.

11.6 Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

12. Cynllun Corfforaethol Drafft 2010-13 & Chynllun Gweithredol Drafft 2010-11 (CyngACC 02/10)

12.1 Cyflwynwyd y papur hwn yn fras gan y Prif Weithredwr, gan dynnu sylw yn gyntaf at y Cynllun Corfforaethol drafft 2010-13.

<u>Cynllun Corfforaethol drafft 2010-13:</u>

12.2 Amlygodd deitlau diwygiedig Amcan 3: "*i feithrin ymarfer adfyfyriol a datblygiad proffesiynol mewn addysgu*"; is-amcan 3.1: "*Datblygu proffesiwn adfyfyriol a hyderus yng Nghymru"*; a'r is-amcan newydd, 5.3: *"Cyfathrebu gyda rhanddeiliaid".* Gwahoddwyd yr aelodau hefyd i gynnig sylwadau ar y cynllun yn ei gyfanrwydd ac fe'i hysbyswyd y byddai'r cyfrifiadau ariannol yn cael eu cynnwys yn y fersiwn a fyddai'n cael ei drafod yn y Pwyllgor Gweithredol ym mis Mawrth 2010.

12.3 Cynigiodd un aelod sylw ar y cyflwyniad i Gynllun Corfforaethol 2010-13, gan dynnu sylw at bennawd Amcan 1. Rhoddodd ei barn mai canlyniad hyrwyddo'r safonau uchaf mewn ymddygiad ac arfer proffesiynol ddylai codi statws y proffesiwn addysgu fod, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. Roedd yr aelodau'n cytuno gyda'r farn hon.

12.4 Gan symud drwy'r ddogfen, fesul amcan, awgrymodd yr aelodau nifer o newidiadau i'r testun i'w cynnwys yn y drafft nesaf.

<u>Cynllun Gweithredol drafft 2010-11:</u>

12.5 Yna gwahoddwyd yr aelodau i ystyried Cynllun Gweithredol drafft 2010-11.

12.6 Gan gyfeirio at Amcan 3.1.b: "*sefydlu cyfleoedd i athrawon ledaenu arfer gorau ar lefel genedlaethol",* awgrymodd un aelod y dylid gofyn i SAU am enghreifftiau addas a allai

gynnwys arfer y gwelwyd enghreifftiau ohono mewn astudiaethau ar lefel Diploma a Meistr.

12.7 Tynnodd aelod arall sylw at Amcan 3.1.e: "*peilota rhaglen fwrsari ymchwil fach gan GyngACC ar gyfer athrawon yn erbyn blaenoriaethau a nodir gan y Cyngor*". Lleisiodd ei barn y byddai cynllun o'r fath yn amhriodol o ystyried y câi ei gyllido gan ffïoedd gorfodol.

12.8 Nododd y Prif Weithredwr y byddai'r ddogfen ddrafft hefyd yn cael ei diweddaru yng ngoleuni unrhyw sylwadau a gynigiwyd yn ddiweddarach yn y cyfarfod wrth drafod eitem 17: "*Dulliau cyfathrebu'r Cyngor a'u heffeithiolrwydd* (CyngACC 08/10).

12.9 Ni chododd yr aelodau unrhyw bwyntiau eraill. Gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno sylwadau manwl i'r swyddogion er mwyn iddynt eu cynnwys yn y drafft nesaf. Byddai Cynllun Corfforaethol drafft 2010-13 a'r Cynllun Gweithredol drafft yn cael eu datblygu ymhellach gan swyddogion a chytunwyd i drosglwyddo'r dasg o'u rhoi yn eu ffurf derfynol i'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Mawrth 2010.

13. Trefniadau diwygiedig ar gyfer asesu Addasrwydd i Gofrestru (CyngACC 04/10)

13.1 Cyflwynodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) y papur hwn, a roddodd gyfle i'r aelodau drafod cynigion a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Cofrestru i newid proses bresennol y Cyngor wrth bennu addasrwydd i gofrestru.

13.2 Am fod y meini prawf a'r trefniadau addasrwydd wedi'u cyflwyno yn 2006, roedd y Cyngor wedi penderfynu yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2009 ei bod yn amserol cynnal adolygiad.

13.3 Tynnwyd sylw'r aelodau at fanylion y cynigion a manteision y broses ddiwygiedig arfaethedig.

13.4 Lleisiodd un aelod ei chefnogaeth i'r cynigion. Yna awgrymodd ychwanegu "without due cause" i'r testun ym mharagraff 14 o'r cynigion a oedd yn nodi y gallai'r Pwyllgor gyfarfod yn absenoldeb yr ymgeisydd a dod i benderfyniad os nad oedd yr ymgeisydd yn ymateb i'r gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod.

13.5 Gofynnodd aelod arall am eglurhad ar y llwybr apelio ar gyfer ymgeiswyr. Adroddodd Hayden Llewellyn mai'r Uchel Lys fyddai hyn fel yn y trefniadau presennol.

13.6 Roedd yr aelodau'n fodlon ar y cynigion a chytunwyd eu bod yn addas i'w mabwysiadu ar ôl i'r trefniadau manwl gael eu datblygu. Byddai'r Cyngor yn cynnal ymgynghoriad ar y trefniadau diwygiedig maes o law.

14. Adroddiad cynnydd Cyllido Sefydlu a DPC. (CyngACC 05/10)

14.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, tynnodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) sylw at yr arian a dalwyd i ysgolion yng Nghymru mewn perthynas â hawliau athrawon newydd gymhwyso i Sefydlu a DPC ar 15fed Ionawr 2010.

14.2 Ers i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb dros weinyddu cyllid Sefydlu a DPC i athrawon yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 1af Medi 2006, roedd y symiau canlynol wedi'u talu:

Sefydlu: £14,077,397.93
DPC: £2,373,837.33

14.3 Hysbyswyd yr aelodau bod swyddogion wedi nodi gostyngiad yn nifer yr athrawon a oedd yn ymgymryd â Sefydlu yn ystod y cyfnod y bu'r Cyngor yn gweinyddu'r cyllid hwn. O gymharu â hyn, roedd nifer yr athrawon a oedd yn cyrchu cyllid DPC yr un peth ar y cyfan.

14.4 Aeth ymlaen i adrodd bod swyddogion yn parhau i weld nifer bach o achosion lle roedd athrawon wedi dechrau ar eu Sefydlu heb fod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor. Roedd y mater hwn wedi'i adrodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac roedd swyddogion y Cyngor yn cyfeirio pob achos o'r fath yn ysgrifenedig bellach. O ganlyniad, roedd y Cynulliad wedi cyhoeddi cyfarwyddyd i Gyrff Priodol ar y mater hwn ym mis Tachwedd 2009 ac wedi cysylltu ag AALlau ar achosion unigol.

14.5 Adroddodd un aelod, fel pennaeth, ei bod wedi dod ar draws tri athro a oedd wedi gwneud cais am gyllid Sefydlu a DPC, tra'n gweithio mewn ysgol arall, ond heb fynychu unrhyw gyrsiau na chael budd o'r cyllid mewn unrhyw ffordd. Roedd yn pryderu bod yr enghreifftiau hyn yn y bôn yn gyfystyr â cheisiadau twyllodrus gan benaethiaid. Roedd y swyddogion yn bryderus iawn os oedd hyn yn wir a gofynnwyd i'r holl wybodaeth gael ei throsglwyddo ar y cyfle cynharaf er mwyn gallu ymchwilio i bob achos. Roedd yr aelodau'n rhannu'r pryder.

14.6 Esboniodd Hayden Llewellyn wrth yr aelodau bod swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynnu bod y Cyngor yn gweinyddu cyllid Sefydlu & DPC mewn ffordd 'ysgafn'. Ni chafodd CyngACC unrhyw rôl wrth sicrhau ansawdd gweithgareddau Sefydlu ac roedd swyddogion wedi'u cyfarwyddo gan swyddogion y Cynulliad i ryddhau cyllid ar sail y ceisiadau a gytunwyd gan AALlau. Mewn perthynas â DPC, nododd fod cyllid yn cael ei ryddhau pan fyddai'r pennaeth, y mentor a'r athro mewn ysgol yn llofnodi. Fodd bynnag, roedd ymagwedd 'ysgafn' y Cyngor yn cyd-fynd â dymuniadau swyddogion y Cynulliad.

14.7 Cafwyd trafodaeth hir a'r prif bwyntiau oedd: a oedd gan y Cyngor unrhyw rymoedd mewn perthynas ag ymchwilio i bryderon honedig; roedd yn bwysig i'r Cyngor barhau i gyfathrebu'n gadarn bod gan ANG hawliau i dderbyn cyllid; roedd yn anodd i athrawon newydd gymhwyso herio'u penaethiaid os oeddent o'r farn nad oeddent wedi derbyn eu hawl i gyllid; gallai fod yn werthfawr cynnal arolwg cyfrinachol o ANG; a, byddai'n hanfodol canfod y niferoedd dan sylw. Roedd yr aelodau'n cytuno bod yr hawl i ANG gael cyllid Sefydlu & DPC yn rhywbeth i ymfalchïo ynddo yng Nghymru a'i bod yn fater o bryder os oedd yn cael ei gamddefnyddio.

14.8 Rhoddodd Hayden Llewellyn sicrwydd i'r aelodau fod y Cyngor yn rhagweithiol iawn am hyrwyddo hawliau i athrawon a bod dulliau o gyfathrebu ag undebau athrawon ynghylch hawliau athrawon newydd eisoes yn eu lle. Atgoffodd yr aelodau hefyd fod yr ymateb i hawliau wedi gwella'n sylweddol ers i'r Cyngor gymryd y cyfrifoldeb dros weinyddu cyllid Sefydlu & DPC.

14.9 Lleisiodd un aelod ei bryder ei bod yn debygol y byddai cyllid yn cael ei ddargyfeirio o'i ddiben bwriadedig wrth i gyllidebau gael eu gwasgu'n dynnach.

14.10 Roedd pwyntiau eraill a godwyd gan aelodau yn cynnwys: dylai athrawon sy'n aelodau drosglwyddo gwybodaeth am achosion o gamddefnyddio cyllid i swyddogion er mwyn asesu maint y broblem yn gywir; dylid ymateb i'r sefyllfa'n ofalus iawn; gellid gwneud ffurflenni cais yn fwy trylwyr o bosibl. Mynegwyd barn hefyd bod achosion lle bu'n rhaid i ANG gael eu hannog gan eu penaethiaid i hawlio'u hawliau.

14.11 Awgrymodd y Prif Weithredwr y gellid adfer arolwg gan y Cyngor o ANG, a oedd wedi'i fwriadu'n flaenorol ond ei ohirio oherwydd cyfyngder yn y gyllideb yn 2009/10. Byddai'r arolwg yn gyfrinachol ac yn gofyn cwestiynau penodol am brofiadau ANG tra'n ymgymryd â'u blwyddyn sefydlu, gan gynnwys mynediad at gyllid a datblygiad personol.

14.12 Daeth yr aelodau i'r casgliad bod angen trafodaeth bellach unwaith i asesiad o'r dystiolaeth gael ei gynnal. Trosglwyddwyd cyfrifoldeb i ystyried y materion hyn i'r Pwyllgor Gweithredol yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2010.

14.13 Ni chodwyd unrhyw faterion pellach.

15. Adroddiad cynnydd y Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol (CyngACC 06/10)

15.1 Darparodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) adroddiad cynnydd bras ar weinyddiaeth y Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

15.2 Roedd y Cyngor yn gweinyddu'r rhaglen gyllido DPP â ffocws unigol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ac wedi gwneud hynny ers 2001. Fodd bynnag, byddai'r rhaglen yn cael ei chau ar 31ain Mawrth 2010 yn unol â phenderfyniad y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

15.3 Ar 15fed Ionawr 2010, roedd y Cyngor wedi dyrannu £1.975 miliwn o gyllid yn ystod blwyddyn gyllido 2009-10. Roedd cyllid ar gael o hyd ac roedd y neges hon wedi'i chyfleu i athrawon, AALlau, SAU a rhanddeiliaid eraill. Hysbyswyd yr aelodau bod nifer y ceisiadau wedi gostwng yn dilyn penderfyniad y Cynulliad i gau'r rhaglen, a'r disgwyl oedd y byddai swm bach o arian yn cael ei ddychwelyd i'r Cynulliad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

15.4 Lleisiodd un aelod ei phryder ynghylch dychwelyd cyllid na chafodd ei wario i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddiwedd y flwyddyn ac awgrymodd ailagor y rhaglen i'r athrawon hynny a oedd wedi derbyn cyllid yn y ddwy flynedd flaenorol, a oedd wedi'u heithrio rhag ymgeisio ar hyn o bryd. Cynghorodd Hayden Llewellyn nad oedd digon o gyllid ar gael i ateb nifer y ceisiadau y gellid eu derbyn o'r grŵp hwn o athrawon. Mynegodd yr aelod ei siom bod cyllid wedi'i ddal yn ôl wrth athrawon a oedd yn gwbl ymroddedig i'w datblygiad personol ar adeg pan oedd mynediad at gyllid yn dynn.

15.5 Gofynnodd aelod arall am eglurhad am swm y cyllid a oedd yn debygol o gael ei ddychwelyd i'r Cynulliad. Amcangyfrifwyd bod y ffigwr oddeutu £200,000. Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynghylch a ellid cynnig cyllid a oedd yn weddill o ganlyniad i achosion o danhawlio a thynnu'n ôl gan athrawon o'r newydd i athrawon eraill. Roedd Hayden Llewellyn yn flin na fyddai digon o amser ar gael i wneud hynny.

15.6 Tynnwyd sylw'r aelodau at faterion staffio o ganlyniad i'r rhybudd i gau'r rhaglen. Roedd y tîm o bedwar aelod staff wedi'u hysbysu o'r pecynnau diswyddo/colli swyddi priodol. Hyd yma, nid oedd yn ymddangos bod ceisio dod o hyd i swyddi o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn opsiwn. Roedd y Cyngor yn aros i glywed penderfyniad y Gweinidog ynghylch prif-ffrydio'r rhaglen Athro Siartredig a fyddai'n darparu opsiynau i gynnig rhai swyddi o fewn tîm newydd a gâi ei sefydlu.

15.7 Mynegwyd pryder mawr hefyd am yr effaith ar y rheiny a gyflogwyd i weinyddu'r rhaglen gyllido a'r diffyg cyfle i ddod o hyd i swyddi o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Anogodd yr aelod y swyddogion i barhau i bwyso ar swyddogion y Cynulliad i gynorthwyo a gofynnodd am gadarnhad y byddai pecynnau diswyddo'n cael eu sicrhau os byddai angen. Rhoddodd Julia Evans (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)* sicrwydd i'r aelodau ei bod mewn cysylltiad â'r Cynulliad ar bob mater o bryder. Roedd y Cadeirydd yn cytuno ei fod yn pryderu am yr effaith ar staff y Cyngor.

16. Diweddariad Athro Siartredig (CyngACC 07/10)

16.1 Darparodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) amlinelliad bras o'r cynnydd a wnaed ar gynllun peilot estynedig Athro Siartredig a'r cynlluniau i brif-ffrydio'r rhaglen.

16.2 Roedd y Cyngor wedi datblygu rhaglen i athrawon yng Nghymru ennill statws siartredig yn rhan o'i Fframwaith Datblygiad Proffesiynol. Roedd peilot y rhaglen hon wedi dechrau ym mis Medi 2007. Disgwylid penderfyniad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch prif-ffrydio'r rhaglen.

16.3 Hysbyswyd yr aelodau bod y cynlluniau peilot estynedig yn dod yn eu blaen yn dda iawn a'u bod yn unol â'r targed i'w cwblhau erbyn mis Mawrth 2010.

16.4 Er mwyn prif-ffrydio'r rhaglen Athro Siartredig ym mis Medi 2010, roedd wedi'i nodi'n glir i'r Gweinidog (gweler gohebiaeth y Cadeirydd) bod angen penderfyniad erbyn diwedd Ionawr 2010. Yn y cyfarfod cyswllt gyda swyddogion y Cynulliad ar 28ain Ionawr 2010, roedd swyddogion y Cyngor wedi'u cynghori nad oedd swyddogion y Cynulliad mewn sefyllfa i ddweud pryd gellid cael ymateb.

16.5 Yn dilyn gwerthuso'r peilot, roedd gweithgor bach wedi'i gynnull i ymgymryd â mân waith i ddatblygu safonau'r rhaglen Athro Siartredig ac enghreifftio'r safonau ar gyfer athrawon a oedd yn dilyn y llwybr portffolio. Byddai'r enghreifftiau yn cynorthwyo athrawon i ddarparu tystiolaeth eu bod yn cyrraedd y safonau.

16.6 Hysbyswyd yr aelodau y câi'r safonau diwygiedig eu hadrodd i'r Pwyllgor Polisi a'r Cyngor fel oedd yn briodol, unwaith i'r gweithgor eu rhoi yn eu ffurf derfynol.

16.7 Mynegodd un aelod ei bryder am yr oedi wrth ddisgwyl ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar brif-ffrydio'r rhaglen a'r effaith y gallai hyn ei chael, yn arbennig ar y trefniadau ar gyfer y llwybr 'a addysgir'. Byddai angen cryn waith gan y Cyngor wrth roi'r trefniadau achredu yn eu lle a chan SAU wrth ddatblygu'r trefniadau academaidd.

17. Dulliau cyfathrebu'r Cyngor a'u heffeithiolrwydd (CyngACC 08/10)

17.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod y Cyngor wedi dechrau trafod asesu effeithiolrwydd y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2009. Dylanwadwyd i ryw raddau ar y drafodaeth gan sylw negyddol a gafodd CyngACC yn ddiweddar.

17.2 Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gweithredol ystyried effeithiolrwydd dulliau cyfathrebu'r Cyngor ag athrawon, rhanddeiliaid a'r cyhoedd gyda golwg ar ddatblygu'r Strategaeth Gyfathrebu ymhellach ac, yn arbennig, sut gallai'r Cyngor gasglu adborth ynghylch canfyddiadau rhanddeiliaid. Gwahoddwyd yr aelodau i ystyried nifer o gynigion.

17.3 Yng ngoleuni'r cyflwyniad cynharach gan Ian Hamer, Aelod o'r Cyngor dros Ragoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (CHRE), nododd un aelod gydnabyddiaeth Mr Hamer mai ychydig oedd y cyhoedd yn ei wybod am gyrff rheoleiddio gofal iechyd.

17.4 Gan gyfeirio at y cynnig i wahodd is-set gynrychioliadol o athrawon i roi eu barn am y Cyngor a'i waith drwy ebost, gofynnodd un aelod am eglurhad am y ffordd y gellid tynnu grŵp at ei gilydd. Rhoddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) sicrwydd i'r aelodau y byddai dull ymchwilio safonol yn cael ei ddefnyddio ac y câi'r grŵp ei newid bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y grŵp yn parhau'n gynrychioliadol. Hysbyswyd yr aelodau y gallai grŵp sampl o o leiaf 400 athro/athrawes roi hyder o 95% yn y canlyniadau.

17.5 Adroddodd aelod arall bod rhai sefydliadau yn cynnal 'digwyddiadau gwrando' i ymgysylltu â'u rhanddeiliaid. Cwestiynodd a oedd yn bwysig i randdeiliaid wybod llawer

am eu rheoleiddiwr ond rhoddodd ei barn ei bod yn well cynyddu eu gwybodaeth am reoleiddio. Ychwanegodd y byddai'n dda hefyd i aelodau fynychu unrhyw ddigwyddiadau a drefnwyd.

17.6 Eglurodd y Cadeirydd nad denu poblogrwydd i'r Cyngor oedd y bwriad, ond byddai'n croesawu cynyddu dealltwriaeth cofrestreion ynghyd â'u parch at waith y Cyngor. Ychwanegodd y Dirprwy Gadeirydd ei barn mai'r Cyngor oedd gwarcheidwad y proffesiwn addysgu yng Nghymru a'i bod yn ymddangos nad oedd y cyhoedd yn ymwybodol o rôl CyngACC.

17.7 Prif bwyntiau'r drafodaeth oedd: gwell cyfathrebu ag athrawon ddylai fod y prif weithgarwch am fod canfyddiadau presennol athrawon yn llesteirio ymdrechion presennol y Cyngor i gyfathrebu; canfuwyd CyngACC fel sefydliad ar gyfer de Cymru; roedd camdybiaethau eang am rôl CyngACC er gwaethaf y ffaith ei fod wedi'i sefydlu ers bron i ddeng mlynedd; y gallai datgysylltu â'r Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol fod yn amserol o ran cyfathrebu'r neges gywir am rôl y Cyngor i athrawon; y dylai'r Cyngor hefyd dargedu cyfathrebu at benaethiaid; a phwysigrwydd sicrhau bod canfyddiadau'n cael eu deall yn dda ar yr adeg hon at ddibenion meincnodi fel y gellid mesur effeithiolrwydd ymdrechion yn y dyfodol.

17.8 Rhoddodd y Cadeirydd ei farn y dylid casglu canfyddiadau athrawon yn gyntaf heb ystyried a fyddai'r Cyngor yn cytuno ai peidio gyda'r safbwyntiau a fynegwyd. Cytunodd yr aelodau â'r cynnig i ddefnyddio dulliau isel eu cost i gasglu barn athrawon.

17.9 Yma, lleisiodd un aelod ei siom gyda'r cynnig i gyflwyno rhaglen gyllido fach ar gyfer DPP athrawon gyda chyllid y Cyngor ei hun, yn debyg i raglenni a gynigiwyd gan GyngAC yr Alban a ChyngAC Gogledd Iwerddon. Cynigiwyd na fydda'r gyllideb yn fwy na £10,000. Nododd y Dirprwy Gadeirydd fod y cynnig hwn wedi'i fwriadu at ddibenion ymchwil yn hytrach na DPP â ffocws unigol. Fodd bynnag, roedd yr aelodau yn pryderu am yr anfodlonrwydd yr oedd athrawon yn debygol o'i deimlo yn dilyn cau'r Rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol a'r ffaith y gallai'r cynllun arfaethedig barhau i beri dryswch am rôl y Cyngor yn llygaid rhai athrawon fel corff cyllido. Cytunwyd na ddylid mynd ar drywydd y cynnig hwn ar yr adeg hon.

17.10 Mewn perthynas â'r cynnig i geisio sefydlu pobl 'gyswllt' i GyngACC ym mhob ysgol, yn debyg i'r system a sefydlwyd yn ddiweddar gan y Cyngor Addysgu, Iwerddon, holodd un aelod faint o amser y byddai disgwyl i bobl gyswllt o'r fath ei roi i'r Cyngor. Awgrymodd y byddai angen ystyried y goblygiadau ymarferol. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r aelodau mai'r cynnig oedd i fonitro datblygiadau yn Iwerddon ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

17.11 Dywedodd y Cadeirydd mai'r dulliau cyfathrebu mwyaf effeithiol oedd cysylltu wyneb yn wyneb ac ymweld ag ysgolion. Awgrymodd un aelod y dylai'r Cyngor ystyried opsiynau cyfathrebu wyneb yn wyneb, gan gynnwys cynnal digwyddiadau yng ngogledd Cymru.

17.12 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau pellach. Roedd yr aelodau'n fodlon trosglwyddo'r dasg o ddatblygu manylion pob prosiect ymhellach i'r Pwyllgor Gweithredol.

18. Goblygiadau adroddiad "*Ymchwil i Brifathrawiaeth*" Llywodraeth Cynulliad Cymru (CyngACC 09/10)

18.1 Cyflwynodd Karen Evans (*Rheolwr Polisi a Chynllunio*) y papur hwn, a oedd yn gwahodd yr aelodau i ystyried goblygiadau'r ddogfen "*Ymchwil i Brifathrawiaeth*" a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Roedd yr adroddiad wedi'i drafod gan y Pwyllgor Polisi yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2009.

18.2 Roedd y Cyngor wedi rhoi'r gorau i'w gynllun ymchwil arfaethedig i fwriadau gyrfaol deiliaid CPCP nad oeddent yn benaethiaid am fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bwriadu cynnal prosiect tebyg. Fodd bynnag, roedd y Cyngor wedi llwyddo i ddylanwadu ar orchwyl yr ymchwil i sicrhau ei bod yn cwmpasu'r meysydd yr oedd y Cyngor wedi dymuno ymchwilio iddynt.

18.3 Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at yr argymhellion ar recriwtio a hyfforddiant/datblygu a oedd yn cyfeirio at GyngACC, gan awgrymu y byddai rhan bosibl iddo yn y dyfodol.

18.4 Gwahoddwyd yr aelodau i lywio ymateb y Cyngor i'r adroddiad.

18.5 Yn gyntaf, croesawodd dau aelod yr adroddiad ymchwil. Awgrymodd un aelod y gallai fod rôl i'r Cyngor o ran rhoi cefnogaeth oedd mawr ei hangen ar benaethiaid. Lleisiodd aelod arall ei farn y byddai'n croesawu perthnasau agosach rhwng y Cyngor a phenaethiaid.

18.6 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n hoffi gweld Dirprwy Benaethiaid yn cael cyfle i arsylwi amrywiaeth o benaethiaid wrth eu gwaith.

18.7 Prif bwyntiau'r drafodaeth ddilynol oedd: bod nifer y Dirprwy Benaethiaid wrth eu gwaith wedi gostwng ac am fod gan Benaethiaid Cynorthwyol lai o brofiad, y gallai fod anhawster gyda dilyniant yn y dyfodol a allai gael effaith ymhen rhyw 3-5 mlynedd; byddai rhaglen Athro Siartredig CyngACC yn cefnogi datblygu'r holl agweddau hyn ar arweinyddiaeth ac nid prifathrawiaeth yn unig; a chafwyd sylw bod nifer sylweddol o benaethiaid newydd o'r farn nad oedd y cymhwyster CPCP o gymorth iddynt o ran eu paratoi'r ddigonol ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn y swydd.

18.8 Roedd yr aelodau'n cytuno y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes gan fynegi diddordeb mewn cynorthwyo gydag argymhelliad yr adroddiad sef y dylid "*ystyried rhaglen genedlaethol i hyrwyddo Prifathrawiaeth, ymdrin â'r camargraffiadau a hyrwyddo cyfleoedd*".

18.9 Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

19. Ymateb drafft i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru "*Ymddygiad mewn Ysgolion: Dulliau Diogel ac Effeithiol o Ymyrryd*" (CyngACC 10/10)

19.1 Darparodd Karen Evans (*Rheolwr Polisi a Chynllunio*) gyflwyniad bras i'r papur hwn a ddarparodd rai syniadau ynghylch ymateb posibl i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar "*Ymddygiad mewn Ysgolion: Dulliau Diogel ac Effeithiol o Ymyrryd*". Gwahoddwyd yr aelodau i ystyried a fyddai angen i'r Cyngor ymateb ac os byddai, y prif bwyntiau i'w cynnwys.

19.2 Roedd ymgynghoriad y Cynulliad wedi gosod dyletswyddau a grymoedd newydd a oedd yn cael eu cyflwyno yng Nghymru drwy *Ddeddf Addysg ac Arolygiadau* 2006 a *Deddf Lleihau Troseddu Treisgar* 2006 a gofynnwyd am farn ynghylch eu cyflwyno. Roedd y ddogfen yn ymwneud â meysydd fel sancsiynau disgyblu, cadw ar ôl ysgol, atafaelu a gorchmynion a chontractau rhieni. Roedd hefyd yn ymwneud â'r grym i orfod rheoli neu ffrwyno disgyblion a sgrinio a chwilio disgyblion am arfau.

19.3 Croesawodd y Cadeirydd y ddogfen ond dywedodd fod awgrym ynddi o feicroreoli llawer o sefyllfaoedd. Dywedodd fod ysgolion, yn y bôn, yn dymuno adfer cefnogaeth gan deuluoedd a chymunedau a oedd wedi gostwng yn raddol dros gyfnod o amser.

19.4 Croesawodd un aelod y grymoedd ychwanegol a gâi eu cyflwyno i ysgolion eu defnyddio.

19.5 Roedd yr aelodau'n fodlon i'r Cadeirydd anfon llythyr yn ymateb i'r ymgynghoriad.

20. Cynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig Drafft (CyngACC 11/10)

20.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a oedd yn gwahodd yr aelodau i ystyried Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig drafft. Os yn briodol, gwahoddwyd yr aelodau i gytuno i'w fabwysiadu.

20.2 Tynnwyd sylw'r aelodau at y nifer bach o newidiadau o'i gymharu â'r cynllun blaenorol. Adroddodd y Prif Weithredwr fod y drafft wedi'i ddatblygu yn dilyn ymgynghori â'r staff cyfan, trafodaethau mewn cyfarfodydd o Fforwm Cymraeg y staff a thrafodaethau gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

20.3 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau er eglurder ac roedd yr aelodau'n fodlon mabwysiadu'r cynllun diwygiedig.

21. Adroddiadau gan gynrychiolwyr y Cyngor ar grwpiau allanol (CyngACC 14/10)

21.1 Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i'r aelodau am eu hadroddiadau manwl am eu presenoldeb mewn cyfarfodydd grwpiau allanol.

21.2 Nid oedd unrhyw bwyntiau pellach i'w hegluro.

22. Unrhyw fusnes arall

22.1 Hysbyswyd yr aelodau bod y Cyngor wedi derbyn gwahoddiad gan Bwyllgor Addysg UNESCO y DU i gynrychiolydd o GyngACC eistedd ar y Pwyllgor. Nododd y Prif Weithredwr nad oedd unrhyw feini prawf ffurfiol yn eu lle gan y Cyngor mewn perthynas â derbyn gwahoddiadau hirdymor ar gyrff allanol. Roedd yr aelodau'n cytuno y dylid gosod meini prawf yn gyntaf cyn ymdrin â'r cais hwn. Trosglwyddodd yr aelodau'r dasg i'r Pwyllgor Gweithredol.

22.2 Nid oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod yn y Sesiwn Gyhoeddus.

22.3 Yna symudodd y Cyngor i Sesiwn Breifat.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Mercher 28ain Ebrill 2010
ym
Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam